

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10ed o Ionawr 2017.

Yn Bresennol: Barry Bracegirdle (Cadair), Justin Davies – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle

Pamffledi baw cwn - penderfynwyd ar yr 8fed o Chwefror fel dyddiad ar gyfer lansiad y daflen. Byddwn yn cyfarfod efo Swyddog Cyngor Gwynedd ym Mhenygroes. Diolch yn fawr iawn i Justin Davies am ei holl waith yn cyd-lynnu a threfu'r fenter hon. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i droi y bin yn Nantlle fel nad ydyw yn wynebu'r fainc.

Praesept Trafodwyd cyllid y Cyngor yn fanwl. Wedi ystyriaeth ddwys cynyddu'r praesept o 5% eleni.

Cynllunio C16/1643/22/HT –Weirglodd Newydd, Talysarn – ailosod mast telathrebu 10m o uchder presennol gyda mast newydd 15m o uchder - caniatâu; C16/1560/22/LL – Tir ger Capel Tanrallt, Tanrallt, Llanllyfni – codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau ac wyna defaid - caniatâu.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd: Ymatebion: - Bryn Llwyn, Penygroes. Gwaith atgyweirio wedi ei raglennu; Trem yr Wyddfa, Penygroes – coed yn tyfu drosodd o'r cae tu cefn i Trem yr Wyddfa – byddwn yn gofyn am gyfarfod safle; Ffens Ysgol Dyffryn Nantlle – ebost gan y pennaeth yn ein hysbysu fod angen cyfeirio unrhyw gwyn am y ffens i Gyngor Gwynedd; Y Quarry Llanllyfni – y safle wedi ei ddiogelu, ond gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynglyn a'r chwyn 'Japanese Knotweed' sydd yn tyfu ar y safle.

Arall:

*Craig ab Iago – derbyniwyd ebost gan Craig ynglyn a phlannu blodau ar y cylchfannau. Y Cyngor yn ddiolchgar i Craig am ei ymdrechion.

*Clarke Telecom – Cynllun arfaethedig am fast ffon symudol – Erw Fair, Ffordd y Sir, Penygroes. Iwan wedi cysylltu ynglyn a'r cynllun yma, a'r ffaith ei fod yn agos i dai ac ardal sydd o dan drafodaeth i ddatblygu tai.

Materion Pentrefi

Nantlle: Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd ynglyn a'r canlynol.

Ty Coch, Nantlle – dwr yn sefyll yn y ffordd, a draeniau angen eu glanhau.

Nantlle Terrace – chwyn yn parhau i ymwithio i'r lon.

Lwmp ar y ffordd ger y 'manhole' yn Bro Silyn – cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto.

Cof golofn rhyfel angen ei glanhau – holi Amgueddfa Lechi Cymru.

'Nos' yn parhau ar arwydd Glan Rhonwy.

Byddwn yn holi Alex Higgins am or-yrru yn Nantlle, ac os ydy wedi cael y cyfle i fynd i fonitro cyflymder cerbydau.

Llanllyfni: Cwyn fod gwteri wedi cau ar hyd Lon Ddwr, ac yn gyffredinol angen eu glanhau drwy bentref Llanllyfni – byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd.

Talysarn: Bagiau du yn cael eu cario lawr i Ffordd Nantlle, ac yn creu llanast. Problem tipio anghyfreithlon, a all waethygu yn hawdd iawn onid iddi gael ei datrys yn fuan. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd.

Penygroes: Graffiti yn yr arosfan bws – cwyn wedi ei basio ymlaen o Gyngor Gwynedd. Holi Cyngor Gwynedd os oes posib iddyn nhw ei lanhau.

Goleuadau Nadolig – siom nad oedd y goleuadau wedi bod yn weladwy iawn dros y Nadolig yma, a nifer ddim wedi eu troi ymlaen am gyfnodau.

Gofynwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd pryd fydd presenoldeb swddogion parcio ym Mhenygroes eto, a gofyn am ystadegau tocynnau parcio. Roedd pryder fod y broblem parcio ger y Co-op wedi gwaethygu ac yn beryglus.